WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Y Gronfa Gofal Integredig – **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**


Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1531A2019-20




Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae adran 45 o'r Cod yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflawnwyd y gwaith gan dîm a oedd yn cynnwys Anne Beegan, Fflur Jones a Matthew Brushett o dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

# Cynnwys

Cyflwyniad 4

Adroddiad manwl

Gwaith partneriaeth 6

Defnyddio'r gronfa 7

Trefniadau llywodraethu 9

Canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau 12

Atodiadau

Atodiad 1 – Prif ganfyddiadau ein harolygon ymhlith aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac arweinwyr prosiectau 14

Atodiad 2 – Enghreifftiau o ymarfer nodedig 16

Atodiad 3 – Cwestiynau pwysig i aelodau byrddau a phwyllgorau craffu 17


# Cyflwyniad

1 Mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu'r Gronfa Gofal Integredig (y gronfa) ledled Cymru. Ei nod yw annog a galluogi gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a darparwyr annibynnol i weithio mewn ffordd integredig i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy.

2 Ers sefydlu'r gronfa yn 2014-15, mae Llywodraeth Cymru wedi dosbarthu £270 miliwn ledled Cymru rhwng 2014-15 a 2018-19. Yn 2019-20, ceir £115 miliwn yn y gronfa.

3 Ar ôl canolbwyntio i gychwyn ar gynorthwyo pobl hŷn, yn enwedig pobl eiddil oedrannus, ehangwyd cwmpas y gronfa dros gyfnod i gynnwys prosiectau a grwpiau poblogaeth eraill fel y dangosir yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: cwmpas y Gronfa Gofal Integredig




Ffynhonnell yr arddangosyn: Swyddfa Archwilio Cymru

4 Mae Llywodraeth Cymru'n dosbarthu'r gronfa ledled Cymru i'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r byrddau'n gyfrifol am oruchwylio ac am reoli'r modd y mae'r gronfa'n cael ei defnyddio yn eu hardaloedd.

5 Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rydym wedi pwyso a mesur a yw'r gronfa'n cael ei defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy sy'n cyflawni gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Rydym wedi canolbwyntio ar ystyried a yw Llywodraeth Cymru'n rheoli'r gronfa'n effeithiol i gyflawni ei hamcanion, ac a yw'r byrddau partneriaeth rhanbarthol yn dangos eu bod yn defnyddio'r gronfa'n effeithiol. Rydym hefyd wedi ystyried a yw'r prosiectau a gefnogir gan y gronfa'n gwneud gwahaniaeth amlwg ar lefel leol.

6 Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddwyd ein hadroddiad cenedlaethol am Y Gronfa Gofal Integredig. Daethom i'r casgliad **bod y gronfa wedi cael effaith gadarnhaol drwy gefnogi gwaith partneriaeth gwell a thrwy integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well. Fodd bynnag, mae agweddau ar y ffordd y cafodd y gronfa ei rheoli ar lefel genedlaethol, lefel ranbarthol a lefel prosiectau wedi cyfyngu ar ei photensial hyd yma. Ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus yn cael eu prif-ffrydio a'u hariannu fel rhan o wasanaethau craidd y cyrff cyhoeddus hyd yma.**




7 Mae'r adroddiad atodol hwn y dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r adroddiad cenedlaethol yn nodi ein canfyddiadau ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (y Bwrdd) mewn mwy o fanylder. Mae'n adeiladu ar yr adborth a roddwyd i'r Bwrdd ar ôl inni gwblhau ein gwaith maes.

8 Mae'r Bwrdd yn dwyn ynghyd chwe awdurdod lleol y Gogledd (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a chynrychiolwyr y trydydd sector a darparwyr annibynnol.

| | |
|---|---|
| | Mae **Rhan 1** yn crynhoi'r gwaith partneriaeth o ran y gronfa |
| | Mae **Rhan 2** yn crynhoi'r modd y mae'r gronfa'n cael ei defnyddio yn y rhanbarth |
| | Mae **Rhan 3** yn crynhoi'r trefniadau llywodraethu rhanbarthol ar gyfer y gronfa |
| | Mae **Rhan 4** yn crynhoi effaith gyffredinol y gronfa o ran gwella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau |

9 Drwy gyflawni'r gwaith hwn, rydym wedi pennu nifer o feysydd y gallai Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru eu gwella ar lefel ranbarthol yn ein tyb ni. Fe'u nodir drwy'r adroddiad hwn. Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion penodol ar gyfer y Bwrdd, ond mae'r adroddiad cenedlaethol yn cynnwys nifer o argymhellion sy'n berthnasol i bob un o'r byrddau.

10 Rydym hefyd wedi nodi enghreifftiau o ymarfer ledled Cymru y gall y Bwrdd ddysgu ohonynt.

11 Yn olaf, rydym hefyd wedi pennu rhai cwestiynau pwysig y gallai aelodau o'r byrddau iechyd a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol eu trafod â'r swyddogion arweiniol sy'n gyfrifol am y gronfa i gadw llygad barcud ar y modd y'i defnyddir ar draws y rhanbarth.

# Adroddiad manwl

## Gwaith partneriaeth

12 Mae ein hadroddiad cenedlaethol yn nodi bod **y gronfa wedi helpu i ddod â sefydliadau ynghyd i gynllunio ac i ddarparu gwasanaethau**. Mae partneriaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn bodoli ers peth amser ond nid oedd llawer o waith integredig yn digwydd cyn sefydlu’r gronfa. Canfuwyd bod y gronfa wedi ysgogi partneriaid rhanbarthol i ddatblygu gwasanaethau integredig ac i symud at drefniadau ariannu ar y cyd yng nghyd-destun polisïau a deddfwriaeth ehangach.

13 Yn y Gogledd, cydnabu’r aelodau fod y Bwrdd wedi gwella’n raddol ers ei sefydlu yn 2016. Bu’r partneriaid yn barod i ddefnyddio arian craidd ac arian arall, fel arian pwysau’r gaeaf, i gefnogi prosiectau’r Gronfa Gofal Integredig. Ond, er bod gwaith partneriaeth cyffredinol dda yn digwydd yn y Gogledd, cydnabu llawer o’r partneriaid fod angen i waith partneriaeth ennill ei blwyf i raddau helaethach, gyda nifer yn datgan nad oeddent yn sicr y byddai'r gwaith partneriaeth yn parhau pe bai’r gronfa’n dod i ben.

14 Fel rhan o’n harolwg ymhlith aelodau’r Bwrdd, gofynnwyd:

- a yw’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn hwyluso gwaith partneriaeth da;
- a yw’r sefydliadau sy’n bartneriaid yn dangos ymrwymiad i waith partneriaeth.

15 Roedd yr ymatebion a ddaeth i law o'r Gogledd ychydig yn llai cadarnhaol na chyfartaledd Cymru gyfan, ond roeddent yn dal i fod yn gadarnhaol ar y cyfan.


16 Fel rhan o’n harolygon ymhlith aelodau’r byrddau partneriaeth rhanbarthol ac arweinwyr prosiectau, gofynnwyd hefyd am effaith y gronfa ar waith partneriaeth. Roedd yr ymatebion a ddaeth i law o’r Gogledd ar y cyfan yn cadarnhau’r farn gadarnhaol ynghylch yr effaith y mae’r gronfa wedi’i chael o ran cryfhau gwaith partneriaeth. Mae’r holl ymatebion rhanbarthol i’r arolygon, ynghyd â’r cyfraddau ymateb, i’w cael yn Atodiad 1.

# Adroddiad manwl

## Defnyddio'r gronfa

17 Mae ein hadroddiad cenedlaethol yn nodi bod agweddau ar y ffordd y cafodd y gronfa ei dyrannu gan Lywodraeth Cymru a'i defnyddio gan bartneriaid rhanbarthol wedi cyfyngu ar ei photensial hyd yma. Mae'n nodi y gall y byrddau ei chael yn anodd taro cydbwysedd rhwng anghenion y boblogaeth leol a dyraniadau dangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer grwpiau targed. Mae hefyd yn nodi bod y byrddau'n defnyddio eu dyraniadau mewn gwahanol ffyrdd, ac nad yw pob un o'r rhain yn cefnogi ffocws rhanbarthol. Canfuwyd bod y dulliau o ddefnyddio'r gronfa'n amrywio o ranbarth i ranbarth, ac nad oes llawer yn cael ei wneud i rannu'r dulliau a ddefnyddir ledled Cymru ac i ddysgu ohonynt.

Arddangosyn 2: dulliau o ddefnyddio'r gronfa 2014-18




Ffynhonnell yr arddangosyn: Swyddfa Archwilio Cymru

18 Cydnabu aelodau Bwrdd y Gogledd na chafodd y gronfa ei defnyddio lawer ar sail ranbarthol. Ers sefydlu'r gronfa, mae'r Bwrdd wedi dosbarthu ei ddyraniad ymhellach i'r siroedd. Dywedodd llawer o aelodau'r Bwrdd eu bod yn teimlo'n fwy

cyfforddus yn gweithio ar sail is-ranbarthol[1] ar draws ardal un neu ddau awdurdod lleol yn hytrach nag ar draws y Gogledd i gyd.

19 Yn y Gogledd, caiff y gronfa ei brigdorri i ariannu swyddi cydgysylltu a rheoli prosiectau. Arferai Bwrdd y Gogledd hefyd glustnodi cyfran o’r gronfa’n benodol ar gyfer y trydydd sector, ond daeth yr arfer hwn i ben wrth i nifer grwpiau targed y gronfa ehangu. Dywedodd cynrychiolwyr y trydydd sector wrthym nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael mynediad digonol at y gronfa a’u bod yn elwa’n bennaf pan fydd y gwariant ar brosiectau eraill yn llithro.

20 Yn ddiweddar, mae rhai o’r byrddau partneriaeth rhanbarthol wedi dechrau dyrannu’r gronfa drwy gomisiynu grwpiau thematig i lunio rhaglen waith y gall y gronfa ei chefnogi, yn hytrach na gwahodd ceisiadau gan sefydliadau sy’n aelodau. Mae Bwrdd y Gogledd yn gwahodd ac yn cymeradwyo ceisiadau drwy ei is-grwpiau. Fodd bynnag, er inni sylwi ar arfer da o ran rhestr wirio ddatblygedig i sicrhau diwydrwydd dyladwy, nid oedd yr un o’r trafodaethau i gymeradwyo ceisiadau y bu inni arsylwi arnynt yn defnyddio dull sgorio i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddyrannu’n deg. Roedd y prosiectau a gynigiwyd yn cydweddu’n fras ag amcanion corfforaethol y partneriaid o ran atal ac integreiddio, ond ni chanfuwyd ei bod yn ofynnol pennu cysylltiadau rhwng prosiectau ac amcanion strategol y Bwrdd na’r amcanion llesiant lleol i gefnogi’r broses o roi **Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015** ar waith.

21 Mae ein gwaith hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y byrddau partneriaeth rhanbarthol wedi datblygu gwahanol ddulliau o reoli tanwariant. Yn y Gogledd, mae is-grwpiau’r Bwrdd hefyd yn rheoli tanwariant gan ddefnyddio gwahanol ddulliau. I gychwyn, bydd yr is-grwpiau’n rhagweld llithriant ac yn rhoi dyraniadau mwy na’u cyllidebau dyranedig i brosiectau. Yn ystod y flwyddyn, bydd rhai is-grwpiau’n dyrannu tanwariant ar sail rhestr wrth gefn o brosiectau cymeradwy. Bydd eraill yn arallgyfeirio tanwariant yn awtomatig at brosiectau sy’n flaenoriaeth uchel a phrosiectau â galw mawr amdanynt, megis gwelyau camu i fyny a chamu i lawr. Yn olaf, bydd Bwrdd y Gogledd hefyd yn gwahodd ceisiadau ar fyr rybudd gan y trydydd sector ar gyfer prosiectau y gellir eu rhoi ar waith ar fyrder.

## Meysydd i’w gwella

- Chwilio am ffyrdd o sicrhau bod y trydydd sector yn cael mynediad teg at y Gronfa Gofal Integredig
- Sicrhau bod y rhestr wirio diwydrwydd dyladwy’n cael ei defnyddio’n briodol i gymeradwyo prosiectau’r Gronfa Gofal Integredig
- Sicrhau bod tanwariant yn cael ei ddyrannu’n effeithlon ac yn effeithiol yn ystod y flwyddyn

[1] Bu inni arsylwi bod gwaith is-ranbarthol o ran y gronfa’n digwydd mewn tair ardal ddaearyddol: Gwynedd ac Ynys Môn; Conwy a Sir Ddinbych; Sir y Fflint a Wrecsam.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

22 Mae ein hadroddiad cenedlaethol yn nodi bod angen datblygu trefniadau llywodraethu'r gronfa ymhellach i gryfhau'r gwaith goruchwylio canolog ac i sicrhau mwy o gysondeb ar draws y rhanbarthau. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod y byrddau partneriaeth rhanbarthol yn aml yn dirprwyo cyfrifoldeb dros y gronfa i is-grŵp ac nad yw'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol yn gwneud llawer i graffu ar y modd y defnyddir y gronfa. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod cadernid y gwaith rheoli prosiectau'n amrywio o fwrdd i fwrdd ac o sefydliad i sefydliad, ac mai prin yw'r prosiectau sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau o'r dechrau'n deg.

23 Ym Mwrdd y Gogledd, mae grwpiau amrywiol ar lefel is-ranbarthol yn bwydo i mewn i fyrddau gwasanaeth integredig neu i grwpiau thematig sy'n adrodd i'r Grŵp Arweinyddiaeth ac yna i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Trafodir y gronfa hefyd yng nghyfarfodydd arweinwyr y Gronfa Gofal Integredig sy'n dwyn ynghyd arweinwyr ariannol a gweithredol y gronfa o is-grwpiau'r Bwrdd i rannu ac i drafod gwybodaeth. Ceir Bwrdd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru[2] a Grŵp Strategol y Gwasanaeth Awtistiaeth hefyd sy'n trafod yr agweddau hyn ar y gronfa.

24 Ceir cynrychiolaeth o'r cyrff statudol ar bob bwrdd partneriaeth rhanbarthol, ond roedd cynrychiolaeth o'r maes tai cyn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn 2018 yn amrywio. Oherwydd nifer yr awdurdodau lleol yn y rhanbarth, gall maint aelodaeth Bwrdd y Gogledd greu heriau o ran penderfynu, trafod a chael consensws. Y Gogledd yw'r unig ranbarth sydd wedi cyfethol aelodau ychwanegol i'w Fwrdd i gael cynrychiolaeth o'r gwasanaethau heddlu, tân ac ambiwlans. Er bod hwn yn gam cadarnhaol i hybu gwaith partneriaeth, gallai greu anawsterau pellach o bryd i'w gilydd o ran penderfynu. Dywed cynrychiolwyr gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau fod eu cyfraniadau at benderfyniadau'n aml yn gyfyngedig gan fod trafodaethau a phenderfyniadau'n aml yn digwydd tu allan i gyfarfodydd y Bwrdd heb iddynt fod yn rhan ohonynt.

25 Nid yw aelodau'r Bwrdd yn rhoi gwybod yn gyson i'w sefydliadau am drafodaethau, er enghraifft, ynghylch dyrannu'r gronfa a'i heffaith yn y rhanbarth.

26 Mae'r Bwrdd wedi cymryd rhai camau i gysylltu ei waith â gwaith y byrddau gwasanaethau cyhoeddus lleol, er enghraifft, drwy i rai unigolion fod yn aelodau o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac un o'r pedwar bwrdd gwasanaethau cyhoeddus lleol. Yn ychwanegol at hyn, roedd fformat asesiad effaith Cynllun Ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru'n annog y Bwrdd i ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) ac i feithrin cysylltiadau â byrddau gwasanaethau cyhoeddus yr ardal lle bo modd. Canfuwyd bod lle i egluro ac i wella'r cysylltiadau rhwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a phedwar bwrdd gwasanaethau cyhoeddus y Gogledd ymhellach ar sail reolaidd a pharhaus, megis

[2] System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)

drwy bennu sut y mae'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn perthyn i strwythur y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

27 Gan gydnabod yr angen i osgoi bylchau ac i sicrhau nad yw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn dyblygu gwaith, ac yng ngoleuni argymhellion **Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**[3], roedd y Bwrdd yn pwyso a mesur cyfleoedd pellach i feithrin cysylltiadau â'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus sy'n bartneriaid ar adeg ein hadolygiad.

28 Ar lefel prosiectau, canfuwyd cryfderau a gwendidau o ran y dull o reoli'r prosiectau a ariennir (Arddangosyn 3).

Arddangosyn 3: cryfderau a gwendidau o ran rheoli prosiectau

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| ✓ Mae'n ofynnol i arweinwyr prosiectau weithio ac adrodd ar sail targedau y cytunir arnynt<br>✓ Mae arweinwyr prosiectau eisiau ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau pan fyddant yn cynllunio prosiectau<br>✓ Yn lleol, mae'n ymddangos bod trefniadau da ar waith ar y cyfan i oruchwylio'r prosiectau a ariennir, a hynny drwy fabwysiadu trefniadau'r sefydliadau sy'n lletya'r prosiectau | ✗ Nid oes cynllun prosiect ar gael i ategu pob prosiect, yn enwedig yn achos prosiectau sy'n treiglo o flwyddyn flaenorol a phrosiectau a ariennir yn sgil tanwariant<br>✗ Mae'r dulliau o reoli prosiectau'n amrywio<br>✗ Nid oes fframwaith asesu risg yn ei le ar gyfer y rhaglen ac nid oes trefniadau rheoli risg cyson a pharhaus ar waith o ran prosiectau lleol<br>✗ Ceir oedi o ran y cyfathrebu rhwng arweinwyr ardaloedd ac arweinwyr prosiectau ynghylch prosesau ymgeisio a chymeradwyo |

Ffynhonnell yr arddangosyn: Gwaith maes Swyddfa Archwilio Cymru

29 Yn yr un modd â llawer o'r rhanbarthau eraill, mae Bwrdd y Gogledd yn methu'n gyson â choladu gwybodaeth monitro prosiectau, craffu arni a'i chymeradwyo erbyn dyddiadau terfyn tynn Llywodraeth Cymru. Mae'r ffurflenni monitro'n aml yn cael eu cymeradwyo cyn i'r Bwrdd gael cyfle i graffu arnynt.

[3] **Cymru Iachach**, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, yw cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

| | |
|---|---|
| **Meysydd i'w gwella** | • Gan adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma, creu cysylltiadau mwy effeithiol â'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| | • Gwella prydlondeb y cyfathrebu rhwng arweinwyr ardaloedd ac arweinwyr prosiectau |
| | • Ceisio sicrwydd bod risgiau o ran y prosiectau a ariennir yn cael eu pennu a'u rheoli'n effeithiol ar lefel leol ac ar lefel rhaglen |
| | • Llunio prosesau i adrodd yn ôl i sefydliadau unigol mewn ffordd fwy cyson |

# Atodiad 1

## Canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau

30 Er bod enghreifftiau cadarnhaol, mae ein hadroddiad cenedlaethol yn nodi nad yw effaith gyffredinol y gronfa o ran gwella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau yn glir o hyd ac na cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus yn cael eu prif-ffrydio hyd yma. Mae'r adroddiad yn nodi bod y byrddau partneriaeth rhanbarthol yn pennu amryw o astudiaethau achos cadarnhaol, ond ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus wedi'u prif-ffrydio a'u hariannu fel rhan o wasanaethau craidd y cyrff cyhoeddus hyd yma.

31 Roedd aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru'n teimlo'n gryf bod y gronfa'n cael ei defnyddio i ariannu'r prosiectau cywir, a'u bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau pan fyddant yn goruchwylio'r modd y'i defnyddir. Mae partneriaid rhanbarthol y Gogledd yn gwella'r modd y maent yn cofnodi data am berfformiad prosiectau, ond maent yn cydnabod bod cofnodi canlyniadau cyson a chymaradwy, yn hytrach na data allbynnau, yn dal i fod yn her.

32 Yn debyg i ardaloedd byrddau eraill, mae aelodau Bwrdd y Gogledd yn dal i'w chael yn anodd rhannu gwybodaeth yn llwyddiannus, ac mae hyn yn peri iddi fod yn anodd iawn dangos effaith a chanlyniadau o safbwynt amlasiantaethol. Yn gynyddol, mae arweinwyr prosiectau'n ceisio dangos effaith eu prosiectau drwy gyfrwng astudiaethau achos, gan gynnwys drwy ddefnyddio straeon fideo.

33 Yn yr un modd â byrddau partneriaeth rhanbarthol eraill, ychydig o enghreifftiau a geir yn y Gogledd o brosiectau sydd wedi'u prif-ffrydio, a hynny oherwydd pwysau ariannol a phwysau i wneud arbedion. Mae arweinwyr prosiectau'n ei chael yn arbennig o anodd mesur arbedion ariannol oherwydd natur ataliol y prosiectau. Mae prosiectau o'r fath yn ceisio rheoli galw a gwella gwasanaethau, ac mae'n anodd mesur y canlyniadau hyn ar ffurf arbedion ariannol. Nid oes gan nifer o brosiectau strategaeth ymadael glir os bydd yr arian yn dod i ben. Nid oes trefn reolaidd ar waith i werthuso prosiectau, er bod peth gwaith gwerthuso'n digwydd ar lefel leol ar sail *ad hoc.* Mae llawer o brosiectau'n treiglo o flwyddyn i flwyddyn ac mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r gronfa i ddatblygu prosiectau newydd ac arloesol. Er eu bod yn dal i ddibynnu ar y gronfa, ystyrir bod nifer o'r prosiectau'n rhan o'r gwasanaethau craidd erbyn hyn.

Arddangosyn 4: yr heriau a bennwyd o ran prif-ffrydio prosiectau drwy ein harolwg ymhlith arweinwyr prosiectau yn y Gogledd




Ffynhonnell yr arddangosyn: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru ymhlith arweinwyr prosiectau

34 Er ei bod yn haws dysgu ar y cyd pan fydd llai o bartneriaid, mae Bwrdd y Gogledd wedi datblygu dull o ddysgu ar y cyd yn y rhanbarth drwy Grŵp Arweinwyr y Gronfa Gofal Integredig. Mae'r fforwm hwn yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o'r is-grwpiau yn is-ranbarthau'r Gogledd i drafod materion sy'n gyffredin iddynt. Fodd bynnag, er gwaethaf bodolaeth y grŵp hwn, bu inni sylwi nad yw'r arweinwyr prosiectau sy'n gweithredu ar lefel leol yn gwybod am brosiectau tebyg mewn rhannau eraill o'r Gogledd. Nid yw Bwrdd y Gogledd wedi cymryd rhan mewn cyfleoedd i ddysgu ar y cyd â byrddau cyfagos. O'r herwydd, mae perygl ei fod yn colli cyfleoedd i lunio ac i weithredu prosiectau sy'n gwneud y defnydd gorau posibl o'r gronfa. Serch hynny, cydnabu Bwrdd y Gogledd y gallai wneud mwy i rannu gwersi ac arferion da, gan gynnwys rhannu'r hyn a ddysgir o brosiectau tebyg sydd ar waith mewn gwahanol ardaloedd sy'n rhan o'r Bwrdd.

## Meysydd i'w gwella

- Paratoi strategaethau ymadael ar gyfer pob un o brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig
- Pwyso a mesur cyfleoedd i ddysgu o arferion da mewn rhanbarthau eraill

# Prif ganfyddiadau ein harolygon ymhlith aelodau'r Bwrdd ac arweinwyr prosiectau

Dangosodd ein harolwg ymhlith aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru [4][5]yr hyn a ganlyn:

| | **Ledled Cymru…** |
|---|---|
| Roedd 5 allan o 7 yn cytuno bod y sefydliadau sy'n bartneriaid yn dangos ymrwymiad i waith partneriaeth | 84% |
| Roedd 3 allan o 7 yn cytuno bod cysylltiadau priodol â grwpiau a fforymau rhanbarthol eraill, fel y byrddau gwasanaethau cyhoeddus, i sicrhau nad oedd unrhyw orgyffwrdd na bylchau o ran ymateb i ofynion deddfwriaethol | 56% |
| Roedd 3 allan o 6 yn cytuno ei bod yn ddefnyddiol clustnodi arian o'r gronfa ar gyfer y mentrau cenedlaethol | 53% |
| Roedd 3 allan o 5 yn cytuno bod y templedi a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr adroddiadau chwarterol yn casglu'r wybodaeth gywir | 34% |
| Roedd 3 allan o 6 yn cytuno bod cyfathrebu defnyddiol yn mynd rhagddo'n barhaus rhwng y byrddau partneriaeth rhanbarthol a Llywodraeth Cymru i ddeall unrhyw newidiadau i'r gronfa | 63% |
| Roedd 5 allan o 7 yn cytuno bod y cynigion a gyflwynir gerbron y Bwrdd i'w cymeradwyo o ansawdd da ar y cyfan | 80% |
| Roedd 5 allan o 7 yn cytuno bod y Bwrdd yn neilltuo digon o amser i graffu'n effeithiol ar y modd y mae'r prosiectau a gefnogir gan y gronfa'n cael eu rhoi ar waith | 57% |
| Roedd 2 allan o 7 yn cytuno bod proses glir ar gael i fonitro ac i reoli tanwariant a gorwariant prosiectau o fewn strwythur y Bwrdd | 72% |
| Roedd 4 allan o 7 yn cytuno bod y Bwrdd a'i is-grŵp yn canolbwyntio ar ganlyniadau pan fyddant yn craffu ar y prosiectau | 69% |
| Roedd 4 allan o 7 yn cytuno bod y gronfa'n ariannu'r prosiectau cywir | 64% |
| Roedd 5 allan o 7 yn cytuno bod y prosiectau a ariennir yn gwneud gwahaniaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau | 87% |

[4] Dim ond saith o'r 26 (27%) aelod o'r Bwrdd y gofynnwyd iddynt gymryd rhan yn ein harolwg a ymatebodd.

[5] Ni wnaeth pob aelod a ymatebodd ateb pob cwestiwn.

Dangosodd ein harolwg ymhlith arweinwyr prosiectau[6] yn y Gogledd yr hyn a ganlyn:

| | **Ledled Cymru…** |
|---|---|
| Dywedodd 12 allan o 14 (86%) fod eu prosiect(au) wedi cael arian mewn blynyddoedd blaenorol | 71% |
| Dywedodd 4 allan o 15 (27%) fod eu prosiect(au) wedi cael arian ychwanegol, yn ogystal â'r Gronfa Gofal Integredig | 48% |
| Dywedodd 13 allan o 15 (87%) fod cysylltiad clir rhwng eu prosiect(au) a'r blaenoriaethau strategol cenedlaethol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) | 92% |
| Dywedodd 11 allan o 15 (73%) fod fframwaith rheoli risg yn ei le ar gyfer eu prosiect(au) | 58% |
| Dywedodd 15 allan o 15 (100%) eu bod wedi cael cyfarwyddyd priodol gan reolwyr i'w cynorthwyo i roi'r prosiect(au) ar waith | 89% |
| Dywedodd 8 allan o 15 (53%) fod gofyn iddynt gynnwys strategaeth ymadael fel rhan o'u cynlluniau prosiect | 40% |
| Dywedodd 8 allan o 15 (53%) fod un pwynt atebolrwydd ar gael o ran rhoi'r prosiect(au) ar waith | 78% |
| Dywedodd 5 allan o 15 (33%) fod eu prosiect(au) wedi dechrau'n brydlon | 32% |
| Dywedodd 6 allan o 15 (40%) fod dull ar waith i fesur buddion ariannol y prosiect(au) | 40% |
| Dywedodd 7 allan o 15 (47%) eu bod wedi gallu dangos effaith y prosiect(au) | 60% |
| Dywedodd 10 allan o 15 (67%) fod y gronfa'n helpu i ddarparu gwasanaethau gwell a mwy cynaliadwy yn eu rhanbarth | 66% |
| Dywedodd 5 allan o 13 (38%) fod heriau o ran prif-ffrydio'r prosiect(au) | 75% |
| Dywedodd 13 allan o 15 (87%) fod y prosiect(au) yn gwneud gwahaniaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau | 91% |

[6] Dim ond 15 o'r 71 (21%) o arweinwyr prosiectau y gofynnwyd iddynt gymryd rhan yn ein harolwg a ymatebodd.

# Atodiad 2

## Enghreifftiau o ymarfer nodedig

Wrth inni ymgymryd â'n gwaith, rydym wedi nodi nifer o feysydd ymarfer y gallai byrddau partneriaeth rhanbarthol eraill ddysgu ohonynt.

Ledled rhanbarth **Cwm Taf Morgannwg**, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf wedi ymgymryd â gwaith datblygu i bennu meysydd sy'n gyffredin i'r ddwy bartneriaeth, ac i gytuno pwy sy'n gyfrifol am bob un ohonynt. I ategu'r trefniadau hyn, mae cynrychiolydd o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel aelod nad yw'n pleidleisio, a'r gwrthwyneb, i sicrhau bod y partneriaethau'n cyfathrebu â'i gilydd.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol **Gorllewin Cymru** wedi datblygu dull strategol o ddefnyddio tanwariant. Pan fydd yn dyrannu arian i brosiectau newydd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, mae'n sgorio'r prosiectau aflwyddiannus gan ddefnyddio'r un dull sgorio â'r prosiectau llwyddiannus. Mae'n pennu'r prosiectau sy'n sgorio uchaf ac yn cytuno i ddefnyddio unrhyw danwariant i'w rhoi ar waith. O wneud hyn, mae'n sicrhau nad yw'r Bwrdd yn ceisio defnyddio'r tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer ymyriadau tymor byr.

Ar ôl cynnal adolygiad mewnol, mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol **Caerdydd a'r Fro** wedi datblygu dangosfwrdd perfformiad i fonitro'r Gronfa Gofal Integredig. Mae'r dangosfwrdd yn cefnogi'r broses o baratoi adroddiadau chwarterol am y lefelau gweithgarwch arfaethedig a gwirioneddol, effaith a chanlyniadau'r gronfa gan ddefnyddio system RAG sy'n dynodi'r prosiectau nad ydynt ar y trywydd iawn mewn ffordd weledol.

Ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol **Gwent Fwyaf**, amlinellir swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'i is-grwpiau mewn memorandwm cyd-ddealltwriaeth. Mae'r ddogfen a lofnodwyd gan bob partner yn nodi eu bwriad i gydweithio mewn ffordd gydweithredol er budd trigolion Gwent. Mae'r memorandwm yn cynnwys proses datrys gwrthdaro sydd wedi ategu trafodaethau agored a gonest rhwng partneriaid pan fydd gwrthdaro'n codi.

Nid yw'r rhestr hon o enghreifftiau'n gyflawn. Ceir enghreifftiau eraill yn y deunyddiau a baratowyd yn sgil gweminarau diweddar ein Cyfnewidfa Arfer Da '**Prif heriau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol**' ac maent ar gael i'w gweld ar ein gwefan archwilio.cymru.

# Atodiad 3

## Cwestiynau pwysig i aelodau byrddau a phwyllgorau craffu

I sicrhau bod modd i aelodau o fyrddau iechyd a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol gadw llygad barcud ar y modd y caiff y gronfa ei defnyddio ar draws y rhanbarth, rydym wedi llunio rhai cwestiynau enghreifftiol y gellir eu trafod â'r swyddogion arweiniol sy'n gyfrifol am y gronfa a'r swyddogion arweiniol sy'n aelodau o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

### Gwaith partneriaeth

- A yw'r sefydliad yn herio'r arferion gweithio presennol ac yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd newydd drwy'r gronfa i weithio mewn partneriaeth â'i bartneriaid rhanbarthol?
- A yw'r sefydliad yn ystyried opsiynau i ddefnyddio arian yn fwy effeithiol, er enghraifft drwy gyfuno ffrydiau ariannu amrywiol, lle bo'n briodol, i gynorthwyo gwasanaethau i gael mwy o effaith?

### Defnyddio'r gronfa

- A yw'r sefydliad, drwy ei gynrychiolwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys y cyhoedd, i osod sail ar gyfer ei gynlluniau i ddefnyddio'r gronfa?
- A yw'r sefydliad, drwy ei gynrychiolwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn sicrhau bod sefydliadau'r trydydd sector yn bartneriaid cyfartal ac yn cael mynediad teg at y Gronfa Gofal Integredig ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ac yn ystod y flwyddyn?
- A yw'r sefydliad, drwy ei gynrychiolwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn sicrhau bod y dull o asesu, blaenoriaethu a chymeradwyo gwasanaethau sy'n cael arian o'r Gronfa Gofal Integredig yn gadarn?
- A yw'r sefydliad, drwy ei gynrychiolwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn sicrhau bod y gronfa'n cael ei defnyddio mewn ffordd sy'n sicrhau'r gwerth mwyaf am arian (er enghraifft, drwy leihau'r costau gweinyddol)?
- A oes dull effeithiol ar waith i reoli tanwariant yn y gronfa yn ystod y flwyddyn?

### Trefniadau llywodraethu

- A oes dull ar waith i sicrhau bod y sefydliad yn cael gwybod yn rheolaidd am waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'i is-grwpiau o ran y gronfa?
- A oes fframwaith rheoli risg cadarn ar waith ar gyfer y gwasanaethau a ariennir drwy'r Gronfa Gofal Integredig, a phwy fydd yn gyfrifol am unrhyw broblemau annisgwyl sy'n codi o ran y prosiectau?

- Sut y mae'r sefydliad a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cael sicrwydd bod prosiectau cymeradwy'r Gronfa Gofal Integredig yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod yr adroddiadau am y prosiectau cymeradwy'n gywir?

## Canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau

- A yw'r sefydliad yn cydweithio â'i bartneriaid ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i werthuso'r gwahaniaeth y mae'r mentrau a ariennir wedi'i wneud o ran canlyniadau poblogaeth y rhanbarth?
- A yw'r sefydliad yn cydweithio â'i bartneriaid ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddangos canlyniadau o safbwynt amlasiantaethol?
- A oes gwasanaethau'n cael eu hariannu'n barhaus drwy'r Gronfa Gofal Integredig a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y sefydliad pe baent yn dod i ben h.y. y rheini y'u hystyrir yn wasanaethau craidd erbyn hyn?
- A yw'r sefydliad yn prif-ffrydio prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig sy'n dangos eu bod yn cael effaith gadarnhaol?
- A yw'r sefydliad yn cynorthwyo'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i hwyluso dysgu ar y cyd yn y rhanbarth i sicrhau bod modd gwella'r dull o ddatblygu a rheoli prosiectau'n barhaus a chyflwyno prosiectau lleol llwyddiannus mewn ardaloedd eraill?
- A yw'r sefydliad yn cynorthwyo'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ymgysylltu â rhanbarthau eraill i rannu gwybodaeth ac i ddysgu gwersi o enghreifftiau a phrofiadau eraill o ran y Gronfa Gofal Integredig?

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru